

Prosiectau Gwelliant Cydweithredol Cymru 2021

Galwad am Fynegiant o Ddiddordeb

Hoffech chi arwain prosiect gwelliant cydweithredol gyda chydweithwyr o ddarparwyr eraill yng Nghymru sy'n aelodau o QAA?

Beth yw'r gweithgorau?

1 Nod y gweithgorau hyn rhwng darparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n aelodau o QAA yw hyrwyddo cydweithrediad a datblygiad o fewn y sector. Mae'r rhain yn brosiectau lle mae grwpiau o ddarparwyr yn cytuno i weithio ar y cyd ar faterion sydd o fudd i bawb o fewn y grŵp hwnnw, ac sydd â photensial i ychwanegu gwerth i'r sector cyfan ar ôl ei gwblhau. Gofynnir i'r grwpiau prosiect hyn adrodd ar eu cynnydd i QAA Cymru a rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu o'u gweithgaredd yn rheolaidd. Bydd y grwpiau prosiect hyn yn cael cymorth gan QAA Cymru ar ffurf cyllido a rhywfaint o gefnogaeth gan staff.

2 Yn ddiweddar, mae CCAUC wedi cyhoeddi'r newidiadau i adolygiadau sicrhau ansawdd allanol yn 2021/22 mewn ymateb i bandemig COVID-19. Mae'r cylchlythyr hwn yn nodi, *ar gyfer 2021/22 yn unig, y byddai'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch (QAA) yn ymgysylltu ar wahân â sefydliadau ynghylch gwella ansawdd, ac o'r herwydd, byddai cwmpas yr adolygiadau eleni yn cael ei gyfyngu i ganolbwyntio'n benodol ar sicrhau ansawdd.*¹ Mae gwella ansawdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r sector, felly mae'r Prosiectau Gwella Cydweithredol yn rhoi cyfle i gyflawni'r ymgysylltiad gwella hwn.

3 Fe'ch gwahoddir i fynegi diddordeb mewn arwain un neu fwy o Brosiectau Gwelliant Cydweithredol Cymru. Os oes gennych chi syniad ar gyfer prosiect ond heb ddynodi unrhyw bartneriaid cydweithredol, rydym yn eich annog i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb o hyd. Yn dilyn y dyddiad cau, bydd QAA yn mynd ati i ganfod prosiectau sydd â nodau tebyg ac yn gweithio gyda darparwyr i ffurfio Prosiect Gwella Cydweithredol.

4 Fel arwydd o'r math o waith cydweithredol y mae QAA wedi'i gynorthwyo trwy [Themâu Gwelliant QAA yr Alban](#), cynhaliwyd yr wyth clwstwr cydweithredol canlynol fel rhan o'r [Thema Tystiolaeth ar gyfer Gwelliant](#):

- pellter ac ymdeimlad o berthyn - datblygu pecyn cymorth tiwtor ar-lein (dan arweiniad Prifysgol y Frenhines Margaret)
- disgyblaethau creadigol (dan arweiniad Ysgol Gelf Glasgow)
- cymorth i raddedigion yn yr Alban (dan arweiniad Prifysgol Dundee)

¹ <https://www.hefcw.ac.uk/en/publications/circulars/w21-05he-changes-to-external-quality-assurance-reviews-in-2021-22-in-response-to-the-covid-19-pandemic/>

- gwella cymorth i arweinwyr rhaglenni (dan arweiniad Prifysgol Napier Caeredin)
- dadansoddeg dysgu (dan arweiniad Prifysgol Strathclyde)
- ehangu cyfranogiad gyda recordio darlithoedd (dan arweiniad Prifysgol Caeredin)
- llesiant meddyliol myfyrwyr (dan arweiniad Prifysgol Glasgow Caledonian)
- y tu hwnt i'r metrigau: yr annirweddol (dan arweiniad Prifysgol Abertay).

5 Roedd pob sefydliad yn yr Alban yn ymwneud ag o leiaf un o'r clystyrau cydweithredol hyn. Yn sector Cymru, rydym yn anelu at gael cynifer o ddarparwyr sy'n aelodau o QAA â phosibl i gyfranogi. Mae'r amrywiaeth o ddeilliannau ac allbynu o'r clystyrau ar gael ar [wefan Themâu Gwelliant](#).

Sut mae'r pynciau'n cael eu dynodi a'u dewis?

6 Rydym yn croesawu cynigion ar gyfer prosiect ar unrhyw bwnc, ond rydym wedi bod yn trafod â'n Haelodau QAA yng Nghymru yn ystod y misoedd diwethaf ynghylch meysydd posibl ar gyfer cydweithredu. Yn sgil cyfarfodydd a gweithgaredd ymysg yr aelodaeth fel Rhwydwaith Ansawdd Cymru - nodwyd y themâu canlynol gan y sector:

Categoriâu'r themâu	Dysgu o / myfyrion ar COVID-19	Llais / ymgysylltu â myfyrwyr	Aseidiadau / gweithio gyda staff academiaidd
Is-bynciau	Dysgu cyfunol Agweddau 'dim anfantais'	Cyrhaeddiad myfyrwyr CALIE Cynhwysiad a chydabod profiadau myfyrwyr unigol Ymgysylltiad myfyrwyr â phartneriaid cydweithredol Dadansoddeg data / dysgwyr	Gwella asesu a hyblygrwydd asesu (gan gynnwys aseidiadau ar-lein) Ymgysylltu academyddion â QAA
Themâu sylfaenol	Themâu o Adolygiadau Gwella Ansawdd		
	Gweithio gyda chyrrff eraill yn y sector		
	Dwyieithrwydd		

7 Os ydym yn derbyn mwy o awgrymiadau ar gyfer pynciau nag y gallwn eu cynnal ar hyn o bryd, mae gennym set o feini prawf ar gyfer dethol o blith y mynegiadau o ddiddordeb (gweler paragraff 8).

Beth yw'r broses a'r meini prawf ar gyfer dethol?

- 8 Bydd y mynegiadau o ddiddordeb yn cael eu hadolygu gan QAA Cymru ar sail:
- nifer y sefydliadau (a / neu undebau myfyrwyr) sy'n cymryd rhan weithredol yn y prosiect (rhaid i'r nifer fod o leiaf tri neu bedwar)
 - potensial i'r sector cyfan elwa o'r gwaith ar ôl ei gwblhau

- cyd-fynd â'r themâu a rennir trwy ymgysylltiad QAA Cymru â'r sector (gweler paragraff 5)
- tebygolrwydd y gellid dod o hyd i gyllido o ffynhonnell arall (a allai'r gwaith fynd yn ei flaen heb yr arian gan QAA Cymru?)
- effaith ar / budd i'r darparwyr sy'n ymwneud â'r gweithgor a'u myfyrwyr
- faint o ymgysylltiad myfyrwyr sydd yn y gweithgaredd
- cynlluniau ar gyfer lledaenu deilliannau ar draws y sector
- gwerth am arian
- ystyriaeth o'r effaith gadarnhaol y bydd y prosiect yn ei chael ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg / dwyieithog.

Beth yw'r dyddiadau allweddol?

9 Mae'r dyddiadau allweddol sy'n ymwneud â'r alwad hon am fynegiadau o ddiddordeb fel a ganlyn:

- dylid dychwelyd mynegiadau o ddiddordeb i h.thomas@gaa.ac.uk ynghyd â chopi at ARCAdmin@gaa.ac.uk erbyn dydd Gwener 9 Ebrill (rydym yn croesawu ymatebion yn Saesneg ac yn Gymraeg)
- bydd penderfyniadau ar bob mynegiant o ddiddordeb yn cael eu hadrodd i'r darparwyr dan sylw yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ddydd Llun, 19 Ebrill 2021
- bydd angen i gynigion ar gyfer prosiectau fod yn llwyddiannus er m wyn cychwyn arnynt ac ymrwymo gwariant yn 2020-21
- Cyn belled â bod prosiectau'n cychwyn yn 2020-21, gall y gwaith ymestyn i 2021-22 a bydd angen adroddiad cynnydd manwl erbyn 30 Mehefin 2021.

Beth yw lefel y cymorth ariannol?

10 Bydd yr arian a ddyrennir i fynegiadau diddordeb llwyddiannus yn dibynnu ar natur y gweithgaredd a'r deilliannau a ragwelir, felly nid ydym yn rhagweld y bydd pob prosiect yn cael ei ariannu'n gyfartal. Dylai mynegiadau o ddiddordeb gynnwys manylion ynghylch faint o arian ac adnoddau eraill rydych chi'n gofyn amdanynt, ynghyd ag arwydd o sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio. Dylech nodi a fydd angen cario cyllid ymlaen i'r flwyddyn academaidd 2021-22.

Beth ydym ni'n gofyn i ddarparwyr ei wneud?

11 Os oes gennych chi ddiddordeb mewn arwain prosiect, cwblhewch y Ffurflen Gais ar gyfer Mynegiant o Ddiddordeb.

12 Nodwch y math o gymorth rydych chi'n gofyn amdano gan QAA Cymru i hwyluso'ch gwaith arfaethedig. Fel rhestr ddangosol, gallai enghreifftiau o gymorth gynnwys:

- cyfarwyddo at ddeunydd sydd ar gael yn rhwydd yn QAA sy'n ymwneud â'r pwnc
- cymorth ar gyfer gwerthuso menter
- hyrwyddo'r prosiect trwy sianeli cyfathrebu QAA
- darparu cefnogaeth ymarferol er mwyn caniatáu i gyfarfod gael ei gynnal ar-lein neu'n ddiriaethol.

Oes gennych chi ddiddordeb ac eisiau cymryd rhan?

13 Cyn cyflwyno'ch cynnig, efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi ddarllen yr ysgrifen o'r [Sesiwn Cynllunio Gwelliant yn Rhagfyr](#) ac ymgysylltu â chydweithwyr mewn darparwyr eraill trwy'r [Sianel Yammer Rhwydwaith Ansawdd Cymru](#).

14 Os ydych chi am drafod cynnig neu syniadau ar gyfer prosiect, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych! Gallwch gysylltu â ni ar h.thomas@qaa.ac.uk

Diolch am eich diddordeb a'ch cefnogaeth yn y fenter newydd hon ar gyfer QAA Cymru.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch 2021
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk